



Amcan Llesiant 11

Heneiddio'n Dda - Ymagwedd ledled y Cyngor tuag at gefnogi Heneiddio'n Dda yn Sir Gaerfyrddin

Sut y byddwn yn gwneud hyn?

Ein cynllun gweithredu ar gyfer cyflawni'r amcan hwn

(Mae'r uwcholeuo lliw lemwn yn golygu nad hwn yw prif amcan y Cam neu'r Mesur)

Cyf	Camau Gweithredu a Mesurau	Erbyn Pryd
A	Cymunedau Oed Gyfeillgar:	
1	Byddwn yn ymgynghori ynghylch Cynllun Gweithredu Heneiddio'n Iach gyda'r Fforwm 50+	Mawrth 2018
2	Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid ac yn darparu hyfforddiant staff drwy fenter Gwneud i Bob Cysylltiad Gyfrif (MECC), a fydd yn cynnwys cymorth mewn perthynas â risgiau tân, peryglon eraill, llithro, baglu a chodymau a hyfforddiant Ymyrraeth Fer ynghylch Alcohol.	Mawrth 2018
3	Byddwn yn adolygu darpariaeth y cynllun "Ceir Cefn Gwlad" gyda sefydliadau partner ac yn edrych ar gyfleoedd i rannu adnoddau â thrafnidiaeth iechyd nad yw'n ymdrin ag achosion brys. <i>(Cam gweithredu wedi'i gynnwys hefyd yn Amcan 13)</i>	Mawrth 2018
4	Byddwn yn parhau i adolygu rhwydwaith Trafnidiaeth Gyhoeddus y Sir ac yn gweithio gyda Gweithredwyr a Rhanddeiliaid i gynnal y rhwydwaith o fewn cyfyngiadau'r adnoddau sydd ar gael.	Mawrth 2018
5	Byddwn yn parhau i hyrwyddo Cerdyn Teithio Rhatach Cymru Gyfan	Mawrth 2018
6	Bydd yn cynnal adolygiad i weld beth yw cyflwr presennol cartrefi gofal a thai gwarchod.	Mawrth 2018
7	Byddwn yn lansio gwefan i gyfeirio dysgwyr at y cyfleoedd dysgu sydd ar gael gan yr holl ddarparwyr yn y Sir	Mawrth 2018
8	I sicrhau ein bod yn helpu i liniaru tlodi a hyrwyddo cynhwysiant, byddwn yn cefnogi gwaith y Panel Ymgynghorol Trechu Tlodi <i>(Cam gweithredu wedi'i gynnwys hefyd yn Amcan 5)</i>	Mawrth 2018
9	Byddwn yn datblygu cynllun i gyflwyno goleuadau LED ynni effeithlon i gartrefi y tenant, ac ynghyd â chynlluniau eraill, bydd yn helpu i liniaru tlodi tanwydd. <i>(Cam gweithredu hefyd wedi'i gynnwys yn Amcan 5)</i>	Mawrth 2018
10	Byddwn yn helpu pobl hŷn i gyfrannu at ailgylchu drwy'r cynllun 'cymorth codi' ar gyfer pobl nad ydynt yn gallu mynd â gwastraff i ymyl y ffordd	Mawrth 2018
11	Byddwn yn clustnodi'r cryfderau a'r adnoddau mewn cymunedau sy'n gallu cyfrannu at hyrwyddo a chefnogi iechyd a llesiant cymdogion. <i>(Cam gweithredu hefyd wedi'i gynnwys yn Amcanion 9 a 10)</i>	Mawrth 2018
B	Cymunedau sy'n Cefnogi Pobl â Dementia:	
1	Byddwn yn gweithredu camau gweithredu o fewn y Cynllun Dementia Rhanbarthol yn unol â chanfyddiadau'r Adroddiad Comisiynydd Pobl Hŷn "Mwy na dim ond colli'r cof"	Mawrth 2018

Cyf	Camau Gweithredu a Mesurau	Erbyn Pryd
C	Atal Codymau:	
1	Byddwn yn arolygu priffyrdd, llwybrau troed a seilwaith goleuadau yn rheolaidd i nodi unrhyw ddiffygion sy'n peri perygl i'r cyhoedd.	Mawrth 2018
2	Byddwn yn sicrhau bod amrywiaeth o ymyriadau gweithgarwch corfforol wedi'u targedu yn cael eu rhoi ar waith drwy gydol cwrs bywyd i gynyddu lefelau gweithgarwch y rhai nad ydynt yn egniol neu y mae perygl na fyddant yn egniol. <i>(Cam gweithredu wedi'i gynnwys yn Amcan 8)</i>	Mawrth 2018
3	Byddwn yn cefnogi ymgyrch atal cwmpadau Cymru gyfan 'Steady on' drwy ddosbarthu taflenni a phosteri i'r Fforwm 50+ a rhwydweithiau eraill.	Mawrth 2018
D	Cyfleoedd i gael gwaith a sgiliau newydd	
1	Byddwn yn parhau i gefnogi gwaith partneriaeth gydag eraill sy'n darparu dysgu oedolion yn y gymuned drwy Grŵp Dysgu Oedolion yn y Gymuned Sir Gaerfyrddin <i>(Cam gweithredu hefyd wedi'i gynnwys yn Amcan Llesiant 3)</i>	Mawrth 2018
2	Byddwn yn darparu dosbarthiadau cyfrifiadurol mewn llyfrgelloedd ledled y Sir	Mawrth 2018
3	Byddwn yn cydlynu cyfeirio gweithgarwch digidol ar draws y Sir ar gyfer pobl hŷn	Mawrth 2018
4	Byddwn yn cynnal ac yn hyrwyddo Canolfan Addysg Gymunedol Caerfyrddin fel canolfan flaenllaw ar gyfer Sgiliau Sylfaenol a Saesneg ar gyfer siaradwyr ieithoedd eraill (ESOL), dosbarthiadau preifat, clybiau cymunedol a chymdeithasau.	Mawrth 2018
5	Byddwn yn dechrau gweithredu ein cynllun Datblygu Llyfrgelloedd 2017 - 2022 ac fel rhan o'r cynllun hwnnw, cyflwynwch y gwasanaeth llyfrgell symudol newydd a chynllunio i gartrefi casgliad Archif Sir Gâr mewn llety priodol yn llyfrgell Caerfyrddin. <i>(Gweithredu hefyd wedi'i gynnwys yn Amcan 14)</i>	Mawrth 2018
6	Byddwn yn cynyddu nifer yr oedolion sy'n teimlo'n fwy cadarnhaol ac yn fwy hyderus ynghylch ceisio gwaith ar ôl cael cymorth cyflogadwyedd drwy Gymunedau yn Gyntaf a rhaglenni cysylltiedig. <i>(EconD/020) (Hefyd wedi'i gynnwys yn Amcan Llesiant 5) (Canlyniad 2016/17 - 100%)</i>	100%
7	Byddwn yn sicrhau bod nifer fawr o drigolion yn teimlo'n fwy hyderus yn defnyddio cyfrifiadur ac yn ennill sgiliau TG ar ôl derbyn cymorth cynhwysiant digidol drwy Gymunedau yn Gyntaf a rhaglenni cysylltiedig. <i>(EconD/021) (Hefyd wedi'i gynnwys yn Amcan Llesiant 5) (Canlyniad 2016/17 - 100%)</i>	100%
E	Unigrwydd ac arwahanrwydd:	
1	Byddwn yn datblygu rhaglen Actif Sir Gâr i gefnogi ffyrdd iach o fyw ac i ddarparu cyfleoedd i wneud ffrindiau a chymdeithasu.	Mawrth 2018
2	Byddwn yn cefnogi cynhwysiant drwy sicrhau bod holl drigolion tai gwarchod yn parhau i elwa ar ddarpariaeth Wi-Fi, a hyfforddiant TG	Mawrth 2018
3	Byddwn yn sefydlu ac yn hyrwyddo ymagwedd "busnes pawb" at ddiogelu yn Sir Gaerfyrddin drwy weithio gyda chydweithwyr awdurdod lleol ac asiantaethau partner <i>(Cam gweithredu hefyd wedi'i gynnwys yn Amcan Llesiant 9)</i>	Rhagfyr 2017
4	Byddwn yn cynyddu nifer y bobl agored i niwed a difreintiedig sy'n cael eu diogelu drwy'r Cynllun Diogelu rhag Cam-fanteisio Ariannol <i>(Cam gweithredu hefyd wedi'i gynnwys yn Amcanion Llesiant 5 a 9)</i>	Mawrth 2018
5	Drwy'r rhaglen Credydau Amser byddwn yn darparu ac yn hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli er mwyn i drigolion wella eu sgiliau ac yn parhau i annog trigolion i gymryd mwy o ran yn eu cymunedau drwy wirfoddoli. <i>(Cam gweithredu wedi'i gynnwys yn Amcan 5)</i>	Mawrth 2018